**Yn dilyn cyflwyno'r cynllun prydau ysgol am ddim i ddisgyblion dosbarth Derbyn a blwyddyn 1, a disgyblion cymwys dosbarth Meithrin yn Rhondda Cynon Taf yn llwyddiannus, bydd y cam nesaf yn dechrau ar 1 Ebrill 2023, ble bydd y cynnig yn cael ei ymestyn i gynnwys pob disgybl ym Mlwyddyn 2 a disgyblion cymwys dosbarth Meithrin.**

**Disgyblion cymwys dosbarth Meithrin yw'r rheiny sy'n mynychu darpariaeth Feithrin yr awdurdod lleol* yn llawn amser (sesiynau bore a phrynhawn) yn unol â pholisi derbyn y Cyngor:-**

- **Bydd pob disgybl sy'n 4 oed, rhwng 1 Medi 2022 a 31 Rhagfyr 2022, yn gymwys ar gyfer prydau ysgol am ddim o fis Ionawr 2023.**
- **Bydd pob disgybl sy'n 4 oed, rhwng 1 Ionawr 2023 a 31 Mawrth 2023, yn gymwys ar gyfer prydau ysgol am ddim o fis Ebrill 2023.**
- **Bydd pob disgybl sy'n 4 oed, rhwng 1 Ebrill 2023 a 31 Awst 2023, yn gymwys ar gyfer prydau ysgol am ddim o fis Medi 2023.**

*** Er mwyn eich helpu i ddeall ein meini prawf llawn amser mewn perthynas â dosbarth Meithrin, mae rhan o 'Llyfryn Dechrau'r Ysgol' y Cyngor wedi'i nodi isod; mae hyn yn nodi'r trefniadau derbyn ar gyfer disgyblion dosbarth Meithrin.**

**(Rhan o 'Llyfryn Dechrau'r Ysgol 2022-2023')**

**2.1: Addysg Cyn-feithrin / Meithrin**
Mae'r Cyngor yn adolygu ei weithdrefnau derbyn disgyblion ar gyfer addysg cyn-feithrin a meithrin anstatudol yn barhaus ac mae'n cadw'r hawl i'w diwygio.

**2.1.1 Addysg Cyn-feithrin**
Mae addysg cyn-feithrin ran-amser ar gael i blant yn y tymor ar ôl eu pen-blwyddi'n 3 oed. Bydd modd i rieni gyflwyno cais ar-lein ym mis Medi am le cyn-feithrin sy'n dechrau ym mis Ionawr (y tymor ar ôl i'w plentyn droi'n 3 oed), ac ym mis Ionawr ar gyfer mis Ebrill yn yr un modd.

**2.1.2 Addysg Feithrin**
Mae Addysg Feithrin ran-amser ar gael o fis Medi'r flwyddyn academaidd mae'r plentyn yn troi'n 4 oed. Mae llefydd amser llawn yn cael eu darparu ar gyfer plant sydd wedi cael eu pen-blwyddi'n 4 oed.

**Yn Rhondda Cynon Taf, bydd y Cyngor yn cyflwyno'r cynllun Prydau Ysgol am ddim i holl blant Ysgolion Cynradd fel a ganlyn:-**

- **O 5 Medi 2022 ymlaen, bydd pob disgybl dosbarth Derbyn wedi cael cynnig prydau ysgol am ddim.**
- **O fis Ionawr 2023, mae pob disgybl ym Mlwyddyn 1 wedi cael cynnig pryd ysgol am ddim.**
- **O fis Ionawr 2023, mae pob disgybl dosbarth Meithrin sy'n gymwys wedi cael cynnig pryd ysgol am ddim.**
- **O fis Ebrill 2023, bydd y cynnig yn cael ei ymestyn i ddisgyblion Blwyddyn 2.**
- **O fis Ebrill 2023, bydd y cynnig yn cael ei ymestyn i gynnwys disgyblion dosbarth Meithrin sy'n gymwys.**
- **O fis Medi 2023, bydd y cynnig yn cael ei ymestyn i ddisgyblion Blynyddoedd 3 a 4.**
- **O fis Ebrill 2024, bydd y cynnig yn cael ei ymestyn i ddisgyblion Blynyddoedd 5 a 6.**

Following the successful roll-out of UPFSM to Reception, Year 1 and eligible Nursery age pupils in Rhondda Cynon Taf the next phase is to commence from 1st April 2023, where the offer will be extended to include all Year 2 pupils and eligible Nursery pupils.

Eligible Nursery pupils are those who attend local authority* Nursery provision on a full-time basis (morning and afternoon sessions) in accordance with the Council's admissions policy: -

- *All pupils aged 4 years, between 1st September 2022 and 31st December 2022, will be eligible for a free school meal from January 2023.*
- *All pupils aged 4 years, between 1st January 2023 and 31st March 2023, will be eligible for a free school meal from April 2023.*
- *All pupils aged 4 years, between 1st April 2023 and 31st August 2023, will be eligible for a free school meal from September 2023.*

* To assist your understanding of our full-time Nursery admissions criteria, an excerpt from the Councils 'Starting School' booklet has been provided below; this sets out the admission arrangements for Nursery pupils.

**(Excerpt from 'Starting School Booklet 2022-2023')**

**2.1: Pre-Nursery / Nursery Education**
The Council continuously reviews and reserves the right to amend its admission procedures for non-statutory pre-nursery and nursery education.

**2.1.1 Pre-Nursery Education**
Pre-Nursery Education is provided part time to children the term following their 3rd birthday. Parents will be able to apply online in September for a pre-nursery place to start in January (term after their child's third birthday) and can apply online in January for a pre-nursery place to start in April (term after their child's third birthday).

**2.1.2 Nursery Education**
Nursery Education is provided part time from the September i.e. the start of the academic year in which the child turns 4. Full time places are provided the term after the child turns four.

Within Rhondda Cynon Taf, the Council will be rolling out the UPFSM offer as follows:-

- from 5th September 2022, all Reception aged pupils have been offered a UPFSM.
- from January 2023, all Year 1 pupils have been offered a UPFSM.
- from January 2023, Nursery pupils, who are eligible, have been offered a UPFSM.
- from April 2023, the offer will be extended to Year 2 pupils.
- from April 2023, the offer will be extended to include Nursery pupils, who are eligible.
- from September 2023, the offer will be extended to Year 3 and 4 pupils.
- from April 2024, the offer will be extended to Year 5 and 6 pupils.